# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

**2010 mccc 7**

## RHAN 6

AMRYWIOL AC ATODOL

### 50 Ystyr gwasanaethau tai a gwasanaethau llesiant

(1) At ddibenion y Mesur hwn, ystyr "gwasanaethau tai neu wasanaethau llesiant" yw–

(a) dyroddi llety gan awdurdod tai lleol o dan Ran 6 o Ddeddf Tai 1996 (dyroddi tai'n llety) neu sicrhau llety gan y cyfryw awdurdod o dan [F1 Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014] (digartrefedd);

(b) unrhyw wasanaethau yn ymwneud â llesiant (gan gynnwys tai) a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru (p'un a ddarperir hwy gan neu o dan drefniadau a wneir gydag awdurdod cyhoeddus);

(c) darparu gwybodaeth neu gyngor ynghylch unrhyw wasanaeth sy'n dod o fewn paragraff (a) neu (b) uchod (p'un ai wedi ei ddarparu gan neu o dan drefniadau a wneir gydag awdurdod cyhoeddus).

(2) Mae'r cyfeiriadau i wasanaethau yn is-adran (1)(b) yn cynnwys taliadau, grantiau a benthyciadau.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 50(1)(a) wedi eu hamnewid (27.4.2015) gan Deddf Tai (Cymru) 2014 (anaw 7), a. 145(3), **Atod. 3 para. 19**; O.S. 2015/1272, ergl. 2, Atod. para. 53

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 50 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 55(1)(2)**(a)

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/04/2016.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 50.